



Disgrifiad Swydd

TEITL Y SWYDD:	Rheolwr Hyfforddiant a Chymhwysedd.
SAFLE/RÔL:	Llyfr Gwyrdd – Gradd 11
CYFEIRNOD Y SWYDD:	
LLEOLIAD:	Adran Diogelwch Tân Busnesau - Pencadlys y Gwasanaeth (l'w drafod gyda'r Pennaeth Diogelwch Tân Busnesau)
YN GYFRIFOL I:	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
PRIF DDIBEN Y SWYDD:	Prif ddibenion y swydd hon yw: • Cynnig arweiniad a chymorth ar draws y sefydliad; • Cydlynu a chyflwyno hyfforddiant diogelwch tân a hyfforddiant ymchwilio i danau ar gyfer personél y Gwasanaeth; • Mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo mentrau amddiffyn rhag tân; • Rheoli personél enwebedig yn yr adran Diogelwch Tân i Fusnesau a'u gweithgareddau i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno'n effeithiol ac amcanion y Gwasanaeth yn cael eu cyflawni; • Rheoli adnoddau a phrosiectau a chyfathrebu gwybodaeth i sicrhau gwelliant parhaus; • Gorfodi deddfwriaeth diogelwch tân a rheoliadau cysylltiedig; • Cyflenwi dros eraill yn rheolaethol ac yn broffesiynol mewn rolau rheoli cyfatebol ym maes Diogelwch Tân Busnesau a rhoi arbenigedd cyfreithiol a rheoleiddiol ar waith, ac o ran gorfodi a pholisi, ar draws ffrydiau gwaith yr adran i gefnogi parhad busnes a gwytnwch y Gwasanaeth. Mae'r disgrifiad swydd hwn yn rhoi trosolwg o ofynion y rôl tra gellir dod o hyd i fanylion mwy penodol yn y dogfennau a'r gwefannau a nodir.



ATODLENO GYFRIFOLDEBAU	YN GYFRIFOL I
1. Arwain y weledigaeth ar gyfer Diogelwch Tân Busnesau, gan gynnwys modelu rôl cadarnhaol ac arwain y tîm, gan gymryd rôl weithredol yn y gwaith o ymgorffori Model Gweithredu Diogelwch Tân Busnesau yn llwyddiannus	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
2. Hyrwyddo parch, uniondeb, ymddiriedaeth, gonestrwydd a thegwch o fewn y sefydliad ac wrth ddarparu gwasanaethau.	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
3. Cynnal arfarniadau personol ac adolygu perfformiad personél a thimau o fewn eich maes cyfrifoldeb fel rheolwr;	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
4. Monitro gwaith a gweithgareddau personél enwebedig a dadansoddi data ystadegol am eu perfformiad, eu hansawdd a'u hallbwn a darparu adroddiadau ac argymhellion rheolaidd ynghylch perfformiad;	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
5. Datblygu a chefnogi staff yn yr Adran Diogelwch Tân Busnesau a chynnal ymchwiliadau yn ôl yr angen os bydd gostyngiad mewn safonau proffesiynol.	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
6. Cydlynu a chyflwyno gweithgareddau hyfforddi ym maes diogelwch tân ac ymchwilio i danau ar gyfer personél y Gwasanaeth a chynorthwyo, pan fo angen, i gynnig hyfforddiant o'r fath i sefydliadau allanol;	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
7. Gwybod y diweddaraf am ddatblygiadau cenedlaethol mewn meysydd fel deddfwriaeth newydd, codau ymarfer, hyfforddiant, datblygu, mentora, asesu ac ati a sicrhau bod yr egwyddorion a'r arferion diweddaraf yn cael eu lledaenu i bersonél y Gwasanaeth;	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
8. Rheoli'r gofynion o ran sgiliau diogelwch tân gan sicrhau bod personél yn cael eu nodi a'u cynnig ar gyfer cyrsiau datblygu priodol;	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
9. Trefnu digwyddiadau hyfforddi diogelwch tân gan wneud trefniadau ymarferol priodol i sicrhau bod y digwyddiadau a drefnwyd yn rhedeg yn llyfn;	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau



10. Darparu hyfforddiant, datblygu, mentora ac asesu i bersonél y Gwasanaeth i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â diogelwch tân gan gynnwys yr amgylchedd adeiledig;	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
11. Cefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaethau a pholisïau i gyflawni amcanion corfforaethol ac adrannol;	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
12. Cefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaethau a pholisïau i gyflawni amcanion corfforaethol ac adrannol;	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
13. Rheoli trefniadau ymgynghori gyda phartïon a rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflwyno Diogelwch Tân i Fusnesau;	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
14. Cynnal safonau a sicrhau bod y gwaith o gyflwyno a gorfodi'r holl ddeddfwriaeth diogelwch tân ac arferion cysylltiedig yn gyson ac yn effeithlon;	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
15. Gweinyddu newidiadau i ddeddfwriaeth, rheoliadau, safonau a chodau ymarfer i wella'r ffordd y cyflwynir y gwasanaeth;	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
16. Monitro gwaith a gweithgareddau personél enwebedig a dadansoddi data ystadegol am eu perfformiad, eu hansawdd a'u hallbwn a darparu adroddiadau ac argymhellion rheolaidd ynghylch perfformiad	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
17. Cymryd rhan ym mhrosesau recriwtio'r adran yn ôl yr angen.	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
18. Cynnal archwiliadau ac arolygiadau o adeiladau syml a chymhleth gan gynnwys gwneud y gwaith gweinyddol cyn ac ar ôl arolygiad;	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
19. Ymgymryd â chymau gorfodi gan gynnwys cyflwyno hysbysiadau statudol o fewn cwrdd eich cerdyn gwarant;	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau



20. Sicrhau bod hysbysiadau statudol yn cael eu cyflwyno'n gywir a'u monitro;	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
21. Mynychu cyfarfodydd mewnol ac allanol ac yna rhoi adborth i reolwyr a chydweithwyr i ehangu eu gwybodaeth a chynorthwyo i wneud penderfyniadau.	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
22. Ymateb i ymgynghoriadau ac ymgymryd ag unrhyw ymweliadau cyn neu ar ôl yr ymgynghoriad;	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
23. Ymateb i gwynion, ymholiadau neu ymchwiliadau eraill o'r fath sy'n berthnasol i ddiogelwch tân;	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
24. Rhoi cyngor ac arweiniad yn ôl y gofyn a gwneud argymhellion i gefnogi penderfyniadau;	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
25. Gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer adeiladau enwebedig y Gwasanaeth;	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
26. Defnyddio a chynnal systemau meddalwedd a chronfeydd data i helpu i sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu coladu a bod ystadegau'n cael eu cynhyrchu'n gywir;	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
27. Gwneud gwaith sy'n gysylltiedig â chyflawni cyfrifoldebau statudol y sefydliad o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ayb. 1974 a'r holl ddarpariaethau statudol, codau ymarfer, a pholisïau gwasanaeth perthnasol.	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau
28. Parhad Busnes a Chymorth Traws-swyddogaethol. Bydd deiliad y swydd yn gweithio ar y cyd â rheolwyr Diogelwch Tân Busnesau eraill i gynnal gwytnwch a pharhad swyddogaethau adrannol. Mae hyn yn cynnwys cyflenwi'n rheolaethol a phroffesiynol mewn rolau cyfatebol yn ystod cyfnodau o wyliau blynyddol, absenoldeb salwch, hyfforddiant, neu absenoldeb awdurdodedig arall. Bydd deiliad y swydd yn cyfrannu arbenigedd cyfreithiol a rheoleiddiol ac o ran gorfodi ac arbenigedd polisi ar draws ffyrddau gwaith yr adran Diogelwch Tân Busnesau, gan gefnogi cydweithwyr a sicrhau y cyflawnir dyletswyddau	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau



statudol, blaenoriaethau sefydliadol ac amcanion gwasanaeth yn effeithiol.	
Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol	Dirprwy Bennaeth yr Adran
Rhaid datblygu a chynnal eich cymhwysedd er mwyn bodloni gofynion y safonau galwedigaethol cenedlaethol ar gyfer y swydd h.y. Diploma Lefel-4 mewn Diogelwch Tân (Arolygydd Diogelwch Tân).	Diogelwch Tân Busnesau
Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) Bydd gofyn i chi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus a'i arddangos, er mwyn cynnal, gwella ac ehangu eich gwybodaeth a'ch sgiliau eich hun ac eraill yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth.	Dirprwy Bennaeth yr Adran Diogelwch Tân Busnesau